## PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor, Tŷ Nant, Prestatyn dydd Gwener, 24 Medi 2010 am 10.00 a.m.

### YN BRESENNOL

Mr C.B. Halliday (Cadeirydd), y Cynghorwyr G.A. Green, H.Ll. Jones a Ms M.E. Medley a Ms P. White.

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Swyddog Monitro a'r Swyddog Gweinyddu (C.I. Williams).

### YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd D.A. Thomas a Mr G.F. Roberts.

### 334 MATERION BRYS

Yn unol ag anghenion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu trafod y mater canlynol. Roedd angen ei drafod ar frys:-

**Aelodaeth y Pwyllgor** – Hysbyswyd y Pwyllgor gan y Swyddog Monitro bod y Cynghorydd D.A. Thomas wedi cyflwyno'i ymddiswyddiad o'r Pwyllgor Safonau, oherwydd ei fod yn methu â mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor oedd wedi'u trefnu.

Esboniodd y Swyddog Monitro y byddai'n hysbysu'r Cyngor Sir am ymddiswyddiad y Cynghorydd Thomas ac awgrymodd y gallai'r Cyngor ystyried penodi un o'r rhai a enwebwyd, ac a gyflwynodd gais am y swydd, pan benodwyd Cynghorydd Thomas.

***PENDERFYNWYD** – nodi'r sefyllfa.*

### 335 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd dydd Gwener, 16 Gorffennaf, 2010.

Materion yn codi:-

3. Presenoldeb mewn Cyfarfodydd – Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd G.A. Green am gynnwys eitem 'Datganiad Budd' ar Agendas, esboniodd y Swyddog Monitro y byddai Aelodau'r Pwyllgor yn cael cyfle i ddatgan budd o dan yr Eitem Agenda 'Datganiad Budd' a chyfle arall i wneud hynny wrth drafod yr eitem agenda benodol dan sylw, pan fydden nhw'n absennol ar ddechrau'r cyfarfod. Pwysleisiodd hefyd yr angen am raglen hyfforddiant a chael mwy o ryngweithio rhwng Cynghorau Sir, Tref a Chymuned. Cyfeiriodd hefyd at y wybodaeth a gafwyd gan Bwyllgor Safonau Cyngor Caerdydd, ac at y cyfle a ddaw i gael mwy o wybodaeth o'r Gynhadledd Safonau i'w chynnal yng Nghaerdydd.

Mewn ymateb i awgrym gan y Cynghorydd G.A. Green, cytunwyd y dylai'r Swyddog Monitro barhau i roi ystyriaeth i'r pwnc o gynnwys Datganiadau Budd mewn Cynghorau Tref a Chymuned.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am safon uchel y cofnodion a ddarparwyd ar gyfer y Pwyllgor Safonau.

***PENDERFYNWYD** – derbyn y cofnodion a'u cymeradwyo fel adroddiad cywir, yn amodol ar yr uchod.*

### 336 DATGANIADAU BUDD

***PENDERFYNWYD –***

*Ni fynegodd unrhyw Aelod fudd personol na rhagfarn niweidiol mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w drafod yn y cyfarfod hwn; a*

**337 PHRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Hysbyswyd y Pwyllgor nad oedd unrhyw adroddiadau ysgrifenedig yn ymwneud â phresenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd Cynghorau Sir, Tref a Chymuned.

***PENDERFYNWYD*** *– nodi'r sefyllfa.*

**338 GODDEFEBAU**

Dosbarthodd y Swyddog Monitro gopi o adroddiad ymlaen llaw gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod. Roedd yn ystyried cais gan Aelodau Cyngor Tref y Rhyl i ddiwygio'r hawl i oddefeb a roddwyd i'r Aelodau hynny oedd â budd yn Undeb Credyd Arfordir Clwyd a'i godi o £500, fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Safonau ar 29 Mai 2009, i £3,000.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod y cais yn dod gyda chefnogaeth Clerc Cyngor y Dref, a ddywedodd fod yr Undeb Credyd yn gorff ariannol, cydweithredol hynod o lwyddiannus, yn gweithredu er budd yr Aelodau a'r gymuned leol. Gwnaeth y Gydweithfa gais i Gyngor y Dref am arian dan Gynllun Grantiau Blynyddol y Cyngor ac roedd traean o'r Cynghorwyr Tref, a/neu eu teuluoedd, yn aelodau o'r gydweithfa - ac yn cefnogi'r corff trwy fuddsoddi arian, neu'n derbyn cymorth gan y corff. O ganlyniad i hyn, roedd Aelodau Cyngor Tref Y Rhyl, yn briodol iawn, wedi datgan budd pan drafodwyd y cais am grant. Canlyniad hyn oedd bod cyfarfodydd Cyngor y Dref yn methu â chyrraedd cworwm a bu'n rhaid gohirio trafodaeth a'r ceisiadau am gymorth grantiau.

Roedd y Swyddog Monitro wedi awgrymu y dylid rhoi goddefeb dan baragraffau (d) neu (e) o baragraff 2 dogfen y Pwyllgor Safonau (Rhoi Goddefebau) (Cymru) 2001 yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Pan wnaed y penderfyniad blaenorol gan y Pwyllgor, nid oedd Canllawiau Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus wedi'u cyhoeddi. Ond cafodd y Pwyllgor ei ddylanwadu gan y ddarpariaeth newydd a gyflwynwyd yng Nghod Ymddygiad 2008 oedd yn rhoi goddefeb awtomatig i Aelodau a benodwyd i gyrff allanol pan fyddai'r dyfarniad grant yn is na £500. Roedd y Pwyllgor yn teimlo bod modd defnyddio hyn mewn sefyllfa pan fyddai gan aelodau ddiddordeb personol a phosibilrwydd o ragfarn; felly caniatawyd goddefeb.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod yr Ombwdsmon bellach wedi cyhoeddi'i gyfarwyddyd ac roedd yn eglur - pe byddai'r gwelliant yn cael ei dderbyn y byddai'n rhaid iddo fod yn berthnasol i'r Cynghorwyr Tref hynny oedd yn Aelodau o'r Undeb Credyd gan iddyn nhw gael eu penodi gan Gyngor y Dref a hefyd i'r rhai oedd yn aelodau preifat. Esboniwyd mai'r rheswm dros hyn oedd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad wedi'i rannu'n ddwy. Fodd bynnag, yn yr achos hwn nid oedd yr ail argymhelliad yn berthnasol gan nad oedd unrhyw Aelodau o Gyngor Tref y Rhyl yn benodiadau a wnaed yn unig gan y Cyngor i Undeb Credyd Arfordir Clwyd.

Ar gais y Swyddog Monitro, trafododd Cyngor Tref y Rhyl yr hyn fyddai'n lefel briodol. Yr amcanion oedd cydbwyso'r amrywiol fuddion, gan gynnwys rhoi cymorth i gyrff sy'n rhoi budd i'r gymuned a chydnabod cyfraniad teilwng Aelodau Lleol i gyrff sy'n hybu'r gymuned. Hefyd roedd angen ystyried atebolrwydd a thryloywder, yn dodi o gofnodi diddordeb ynghyd â threfniant gwahanol i ganiatáu goddefebau a'r angen am alluogi Cynghorau i drin eu busnes yn amserol.

I ategu'r wybodaeth a ddarparwyd gan Glerc y Dref, Cyngor Tref y Rhyl, roedd hyn yn ymgorffori dull gweithredu Cynllun Grantiau gan y Cyngor Tref oedd yn delio â cheisiadau a wahoddwyd ar gyfer unrhyw bwrpas fyddai o fudd i'r Rhyl. Cynhwyswyd manylion hefyd yn yr adroddiad am unrhyw Grantiau a ddyfarnwyd i'r Undeb Credyd ers 2001. Esboniwyd hefyd - ar wahân i'r dyfarnu grantiau - roedd yn ofynnol i'r Cyngor wneud penderfyniadau'n fynych am eitemau, heb fod yn rhai ariannol, oedd yn ymwneud â'r Undeb Credyd.

Hysbyswyd Aelodau'r Pwyllgor na fyddai unrhyw oddefeb a ganiateir yn parhau y tu hwnt i'r Etholiadau Llywodraeth Leol ym Mai, 2012, pan fyddai cyfle i Aelodau Cyngor Tref y Rhyl wneud cais o'r newydd yn yr amgylchiadau fyddai'n bodoli'r adeg honno.

Gofynnwyd amryw o gwestiynau, a mynegwyd pryder gan Aelodau'r Pwyllgor am y cais i newid lefel yr oddefeb a ganiateir i Aelodau sydd â budd yn Undeb Credyd Arfordir Clwyd o £500 i £3000. Mynegodd y Cynghorydd G. Green ei ofid fod newid yr oddefeb o £500 i £3000 yn godiad sylweddol iawn yn y lefelau perthnasol.

Pwysleisiodd y Swyddog Monitro'r angen am ystyried ar ba lefel fyddai budd yn yr Undeb Credyd yn creu rhagfarn ac yn ymyrryd. Ychwanegodd hefyd fod angen cydbwyso'r holl elfennau a dadansoddi'r holl gategorïau oedd yn berthnasol cyn addasu lefel yr oddefeb.

Wedi trafodaeth ddofn ar y mater, cynigiodd y Cynghorydd G. Green na ddylid derbyn y cais i newid lefel yr oddefeb a ddylai barhau ar £500. Eiliwyd hyn gan Ms P. White. Cynigiwyd gwelliant i'r cynnig gan Ms M. Medley – i godi lefel yr oddefeb o £500 i £1000, ond ni chafwyd eilydd i hynny.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *– na fyddai'r Pwyllgor Safonau'n newid yr oddefeb i Aelodau Cyngor Tref y Rhyl oedd â buddsoddiad (naill ai debyd neu gredyd) yn Undeb Credyd Arfordir Clwyd o £500, fel y penderfynwyd ar 29 Mai, 2009.*

**339 CYNHADLEDD SAFONAU CYMRU**

Dosbarthwyd copi o raglen Cynhadledd 2010 (copi'n amgaeedig) i'w chynnal yng Nghaerdydd ar 14 Hydref, 2010, gyda'r papurau cyn y cyfarfod. Gofynnwyd i Aelodau nodi'r bobl fyddai'n ei mynychu.

Cytunodd y Pwyllgor fod y Cadeirydd, Ms P. White, y Swyddog Monitro a'r Cynghorydd G.A. Green, os ar gael, yn mynychu'r Gynhadledd Safonau Cymru ar 14 Hydref, 2010. Cytunwyd hefyd y byddai aelodau cynrychioliadol o'r Pwyllgor Safonau yn mynychu'r Sesiynau Gweithdy canlynol:-

**Gweithdy – Sesiwn Un**

Canllawiau'r Cod Ymddygiad – Ms P. White
Materion Cynghorau Tref a Chymuned – Cynghorydd G.A. Green a'r Swyddog Monitro
Gwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau a Moeseg – Cadeirydd

**Gweithdy – Sesiwn Dau**

Canllawiau'r Cod Ymddygiad – Ms P. White
Cysylltu â Chyfryngau Newydd yn y Gymdeithas – Cynghorydd G.A. Green
Gwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau a Moeseg – Cadeirydd a'r Swyddog Monitro

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Cadeirydd, Ms P. White, y Swyddog Monitro a'r Cynghorydd G.A. Green, os ar gael, yn mynychu'r Gynhadledd Safonau Cymru ar 14 Hydref, 2010.*

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at gyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau a drefnwyd ar gyfer 5 Tachwedd, 2010. Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i ddileu'r cyfarfod os na fyddai digon o faterion i'w trafod gan y Pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 a.m.

********